# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION CYFARFOD 7fed MAi 2019

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Troedyraur ar nos Fawrth, 7fed Mai yn Neuadd Rhydlewis.

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng Julie Davies<br>Cyng Maldwyn Lewis<br>Cyng Emyr Jones<br>Cyng Owenna Davies | Cyng Ceri Jones<br>Cyng Teifi Jones<br>Cyng Mark Davies |
| **Ymddiheuriadau** | Cyng Evan John Jones<br>Cyng Llŷr Evans | Cyng Eirian James |
| **Absennol** | Cyng Roger Davies | |
| **Clerc** | Eleanor Colbourne | |

| Eitem agenda | Gweithredu | Gan bwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| **1. Derbyn ymddiheuriadau** | Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng Evan John Jones, Cyng Eirian James a'r Cyng Llŷr Evans. | | |
| **2. Ethol Swyddogion** | **Cadeirydd 2019-2020** – Cyng Mark Davies<br>Cynnigiwyd gan Cyng Teifi Evans ac eiliwyd gan Cyng Emyr Jones.<br><br>**Is Cadeirydd 2019-2020** – Cyng Emyr Jones<br>Cynnigiwyd gan Cyng Teifi Evans ac eiliwyd gan Cyng Ceri Jones<br><br>**Swyddog Ariannol** – Y Clerc<br><br>Archwiliwr **Mewnol** – Y clerc i ofyn i Mrs Emma Jones.<br><br>**Ysbyty Aberteifi** – Cyng Julie Davies.<br>Y clerc i gysylltu gyda ysgrifennyd Ffrindiau Ysbyty Aberteifi . | <br><br><br><br><br><br><br><br>Y Clerc<br><br>Y Clerc | <br><br><br><br><br><br><br><br>Cyfarfod nesaf<br>Cyfarfod nesaf |
| **3. Cadarnhau cofnodion** | Cynnigiwyd gan Cyng Mark Davies ac eiliwyd gan Cyng Julie Davies fod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir. | | |
| **4. Datgan diddordeb** | Ni ddatgelodd neb unrhyw ddiddordeb mewn eitem ar yr agenda. | | |
| **5. Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion** | • Ffurflen gais am grantiau i'w roi ar y wefan yn yr Adran Dogfennau.<br>• Bocs Rhydlewis – wedi cael caniatad i rhoi hysbysebion i fyny ar hysbysfwrdd Neuadd Rhydlewis dros dro.<br>• Angen anfon ffurflen Datgan Diddordeb allan i'r cynghorwyr. | Y Clerc<br><br><br><br><br>Cyng Mark Davies | Cyfarfod nesaf<br><br><br><br><br>Pan yn gyfleus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Bocs Ffostrasol – roedd y Cyng Mark Davies yn barod i wirio bocs Ffostrasol.<br>• Angen cysylltu gyda Simon Bray ynglŷn â golau stryd Brongest gan ddweud fod y goeden wedi cael ei thorri yn barod i'r postyn. | Y Clerc | Cyfarfod nesaf |
| **6. Materion y Cynghorydd Sir** | • Etholiad Ewropeaidd ar y 23ain o Fai 2019.<br>• 3 Swyddog o'r Cyngor Sir yn ymddeol – Meinir o'r adran grantiau, Elfed Howells a Dafydd Roberts.<br>• Gweithyd 'Operation Signature' – roedd y Cyng Maldwyn Lewis yn mynd i wneud ymholiadau ynglŷn â linc/taflen. | | |
| **7. Gohebiaeth** | • Arolwg cynghorau tref a chymuned Cymdeithas Prif Swyddogion Cynllunio Cymru – roedd y Cyng Owenna Davies a'r Cyng Mark Davies yn mynd i gwblhau'r ffurflen dros y clerc er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei anfon yn syth gan fod y dyddiad cau ar y 10fed o Fai 2019.<br><br>• Oxygen Therapy Centre Cardigan Ltd - y clerc i anfon ffurflen grant iddynt gwblhau.<br>• Age Cymru Ceredigion – y clerc i anfon ffurflen grant iddynt gwblhau.<br>• Gofal mewn Galar (cangen Ceredigion) – y clerc i anfon ffurflen grant iddynt gwblhau.<br>• BHIB Insurance Brokers - roedd y Cyng Mark Davies wedi mynd a'r wybodaeth i ddarllen trwyddynt.<br>• Ymateb 'Ganbwyll' i Gyflymder yn Ffostrasol – derbyniodd y clerc ymateb oddi wrth 'Ganbwyll' ynglŷn â cyflymder yn Ffostrasol – nodwyd gan 'Ganbwyll' y byddant yn cysylltu eto pan fydd gwybodaeth ganddynt.<br>• Newyddion y Panel Heddlu a Throseddu – nodwyd fod yna ffurflen gais ar safle wê Heddlu Dyfed Powys 'Police Commissioners Benefit Fund' | Cyng Owenna Davies/ Cyng Mark Davies/ Clerc<br>Y Clerc<br><br>Y Clerc<br><br>Y Clerc<br><br>Cyng Mark Davies<br><br><br><br><br><br>Y Clerc | Ar unwaith<br><br><br><br><br><br><br>Cyfarfod nesaf<br>Cyfarfod nesaf<br>Cyfarfod nesaf<br>Cyfarfod nesaf<br><br><br><br><br><br><br><br>Cyfarfod nesaf |
| **8. Ariannol** | Talwyd y canlynol:-<br>• HMRC - £50.00<br>• Tâl y Clerc - £200.00<br>• Needles & Pins - £380.00 (Cadwyn y Clerc)<br>Penderfynwyd trosglwyddo £2000 o'r cyfrif cadw i'r cyfrif rhedegol. | | |
| **9. Cynllunio** | Dim cynllunio. | | |
| **10. Materion Ardal** | • Cyflymder dod allan o Goedybryn i Benrhiwpal – adolygiad cyflymder yn cael ei wneud yn 2020.<br>• Roedd y Cyng Julie Davies wedi cael gair gyda'r adeiladwr ynglŷn â parcio ger sgwâr Coedybryn.<br>• Daethpwyd i sylw'r Cyngor Cymuned fod pobl yn parcio tu allan i'r hen ysgol. Roedd perchennog yr hen ysgol yn gofidio oherwydd yh parcio.<br>• Cyflymder ar y ffordd o Plwmp Iawr i sgwâr Ffostrasol yn peri gofid.<br>• Cyflymder ar y tro ger bont Rhydlewis yn peri gofid. | | |
| **11. Cadwyn y Cadeirydd** | Roedd y gadwyn wedi cael rhuban newydd ac yn edrych yn hardd iawn. Roedd y Cyng Owenna Davies wedi gwneud ymholiadau gyda T.J. Davies o Aberystwyth ynglŷn â cael bariau ychwanegol ond nid oeddynt wedi dod nôl a prîs. Yn y cyfamser roedd y Cyng Ceri Jones yn mynd i ofyn i David Evans o | Cyng Owenna Davies a'r Cyng Ceri Jones | Cyfarfod nesaf |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Aberteifi am brîs. | | |
| **12. Diweddariad hyfforddiant diffribiliwr** | Hyfforddiant i'w cynnal ar yr 22ain o Fai, 2019 yn Festri Bryngwenith am 7.00 o'r gloch. Angen anfon taflenni allan i drigolion Brongest a Maesllyn. Dywedodd y Cyng Owenna Davies fod ganddi gopi ers y tro cyntaf, felly fe wnai wneud y newidiadau. | | |
| **13. Ffurflenni Banc** | Atgofwyd y rhai oedd angen cwblhau'r ffurflenni i'w gwneud ar fyrder. | | |
| **14. Cynllun Ariannol 2019-2020** | Trafod yr eitem yma yn y cyfarfod nesaf | | |
| **15. Cyflymder Ffostrasol (a Chroeslan)** | Wedi ei trafod eisoes | | |
| **16. Eitemau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf** | Gwylwyr y Glannau; Cynllun Ariannol; Cyflymder Ffostrasol. | | |
| **17. Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf** | 04ydd Mehefin, 2019 am 7.30 y.h. yn Neuadd Ffostrasol | | |

_______________________________________________ (Cadeirydd)

_______________________________________________ (Is-Gadeirydd)